The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu Prosiect Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

Gwrandawiad Mater Penodol:	Yr Ail Wrandawiad Mater Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)
Dyddiad:	9 Ionawr 2019, 9.00am i ddechrau am 9.30am
Lleoliad:	Gwesty Bae Trearddur, Bae Trearddur, Ynys Môn LL65 2UN

Gwrandawiadau Mater Penodol

Gwahoddir pob Parti â Buddiant i ddod i wrandawiadau mater penodol, ond byddai'n hwyluso'r broses o'u cynnal pe gallech roi gwybod i Dîm Achos yr Arolygiaeth (Wylfa@pins.gsi.gov.uk) am ddymuniad i gymryd rhan cyn y gwrandawiad.

Mae gan bob Parti â Buddiant yr hawl i wneud cynrychiolaethau llafar mewn gwrandawiadau. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i rym yr Awdurdod Archwilio (ExA) i reoli gwrandawiadau.

Bydd lleoliad y gwrandawiad ar agor 30 munud cyn i bob gwrandawiad ddechrau er mwyn iddo allu dechrau'n brydlon. Bydd gwrandawiadau'n gorffen cyn gynted ag y bydd yr ExA yn penderfynu bod pawb sy'n bresennol wedi dweud eu dweud a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw.

Diben yr agenda hon yw rhoi arweiniad yn unig. Ni fwriedir iddi fod yn gyfyngedig i'r materion hyn na chynnwys pob mater posibl. Gallai'r ExA ychwanegu materion eraill i'w hystyried, gallai newid y drefn ar gyfer ystyried materion a bydd yn ceisio neilltuo digon o amser i bob mater fel y gellir eu hystyried yn briodol. Os na thrafodir mater penodol mewn gwrandawiad, ni fydd hynny'n atal archwilio'r mater hwnnw ymhellach, gan gynnwys trwy gwestiynau ysgrifenedig pellach.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd y materion yn cael eu trafod ar y diwrnodau a bennwyd yn yr amserlen. Os bydd yn cymryd llai o amser nag a ragwelwyd i ystyried y materion, gallai'r ExA derfynu'r Gwrandawiad cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi cael eu gwneud a'r holl gwestiynau wedi cael eu gofyn a'u hateb.

Os oes materion ychwanegol i'w hystyried neu os oes cyflwyniadau sy'n cymryd cryn dipyn o amser mewn unrhyw Wrandawiad, mae'n bosibl y bydd angen ymestyn hyd y sesiwn y diwrnod hwnnw. Fel arall, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a neilltuo eraill ar gyfer cwestiynau ysgrifenedig pellach.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Sylwer:

Er mwyn sicrhau bod yr agenda'n cael ei chyhoeddi cyn gwyliau'r Nadolig, fe'i lluniwyd cyn derbyn cyflwyniadau ar gyfer Terfyn Amser 3.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Gwrandawiad Mater Penodol: **Yr Ail Wrandawiad Mater Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)**

Agenda

1. **Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

2. **Diben y Gwrandawiad Mater Penodol**
   a. Adolygu newidiadau'r Ymgeisydd i'r DCO drafft (dDCO) o Ddiwygiad 1 i Ddiwygiad 3, a chyflwyniadau gan Unigolion â Buddiant ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig.
   b. Archwilio'r Cytundeb a106 arfaethedig, gan gynnwys ei berthynas â'r dDCO a'r Cytundeb a106 arfaethedig ar gyfer Clirio'r Safle a Gwaith Paratoi.
   c. Derbyn diweddariad ar ganiatadau, trwyddedau a chytundebau eraill.

3. **Erthyglau ac Atodlenni'r DCO drafft (ac eithrio Atodlenni 3, 4 a 15)**
   a. Sefydlu unrhyw newidiadau i'r safbwynt diwethaf a fynegwyd gan bartïon â buddiant mewn perthynas ag erthyglau ac atodlenni'r dDCO.
   b. Amlygu meysydd lle y ceir gwahaniaeth barn o hyd a ph'un a oes unrhyw waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i'r gorchymyn caniatâd datblygu yn cael eu cynnig neu'n angenrheidiol, gan gynnwys materion a fydd yn derbyn sylw, neu'n debygol o dderbyn sylw, yn y Gwrandawiadau Mater Penodol ar Faterion Economaidd-Gymdeithasol a Bioamrywiaeth ym mis Ionawr 2019.
   c. Ystyried yn fanwl Atodlen 1, Datblygiadau Eraill Cysylltiedig, gan gyfeirio'n benodol at Eitem p yn REP2-020 (Rev 3.0). Cyfeiriwyd ati'n flaenorol fel Eitem o yn REP1-005 (Rev 2.0); APP-029 ac APP-030.

4. **Atodlen 3 – Gofynion y dDCO**
   a. Amlygu meysydd lle y ceir gwahaniaeth barn o hyd a ph'un a oes unrhyw waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i'r gorchymyn caniatâd datblygu yn cael eu cynnig neu'n angenrheidiol, gan gynnwys materion a fydd yn derbyn sylw, neu'n debygol o dderbyn sylw, yn y Gwrandawiadau Mater Penodol ar Faterion Economaidd-Gymdeithasol a Bioamrywiaeth ym mis Ionawr 2019.

5. **Atodlen 4 - Cymeradwyaeth Bendant neu Gydymffurfiaeth**
   a. Amlygu meysydd lle y ceir gwahaniaeth barn o hyd a ph'un a oes unrhyw waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i'r gorchymyn caniatâd datblygu yn cael eu cynnig neu'n angenrheidiol, gan gynnwys materion a fydd yn derbyn sylw, neu'n debygol o dderbyn sylw, yn y Gwrandawiadau Mater Penodol ar Faterion Economaidd-Gymdeithasol a Bioamrywiaeth ym mis Ionawr 2019.

6. **Atodlen 15 – Darpariaethau Amddiffynnol y dDCO**
   a. Derbyn diweddariad ar gynnydd rhwng partïon; esboniad o unrhyw wahaniaethau barn pwysig; a graddfeydd amser ar gyfer cwblhau.

7. **Cytundeb a106 arfaethedig**
   a. Ystyried cyfreithlondeb; trefniadau llywodraethu; a digonolrwydd yr adnoddau ariannol a'r adnoddau eraill sy'n debygol o fod ar gael.
   b. Ystyried y gyfres o ddrych-ddarpariaethau a fyddai'n ofynnol yn y dDCO pe na byddai'r Cytundeb a106 yn cael ei gytuno a'i lofnodi cyn diwedd yr Archwiliad.
   c. Archwilio a chadarnhau sut bydd y cysylltiad rhwng y Cytundeb a106 ar gyfer y cais cynllunio a gyflwynwyd mewn perthynas â'r gwaith clirio a pharatoi'r safle a'r Cytundeb a106 a gynigiwyd ar gyfer datblygiad Wylfa Newydd yn gyffredinol yn cael ei reoli.

8. **Caniatadau, trwyddedau a chytundebau eraill**
   a. Derbyn diweddariad ar gynnydd rhwng partïon a graddfeydd amser ar gyfer cwblhau.

9. **Pwyntiau gweithredu sy'n codi o'r gwrandawiad**

10. **Diwedd y Gwrandawiad**

Mynychwyr:

Mae croeso i bob Parti â Buddiant ddod i'r gwrandawiad. Fodd bynnag, gofynnir yn benodol i gynrychiolwyr y partïon canlynol fod yn bresennol oherwydd bod yr Awdurdod Archwilio o'r farn bod y deunydd a gyflwynwyd ganddynt yn codi materion y gallai'r Awdurdod Archwilio ddymuno eu harchwilio yn y gwrandawiad:

- Horizon Nuclear Power (yr Ymgeisydd)
- Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (IACC)
- Cyngor Gwynedd/Gwynedd Council (GC)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council (CCC)
- Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
- Llywodraeth Cymru/Welsh Government (WG)
- Heddlu Gogledd Cymru/North Wales Police (NWP)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB)
- Land and Lakes Ltd

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Wylfa Newydd Nuclear Power Station Project Development Consent Order Application

Issue Specific Hearing: Second Issue Specific Hearing on the draft Development Consent Order (dDCO)

Date: 9 January 2019, 9.00am for 9.30am start

Location: The Trearddur Bay Hotel, Trearddur Bay, Isle of Anglesey LL65 2UN

Issue Specific Hearings

All Interested Parties are invited to attend issue specific hearings but it would assist the running of the hearings if notice could be given to the Inspectorate's Case Team (Wylfa@pins.gsi.gov.uk) of a wish to participate prior to the hearing.

Each Interested Party is entitled to make oral representations at hearings. However, this is subject to the Examining Authority's (ExA's) power to control hearings.

The hearing venue will be open 30 minutes prior to the start of each hearing to enable a prompt start. Hearings will finish as soon as the ExA deems that all those present have had their say and all matters have been covered.

This agenda is for guidance only. It is not designed to be exclusive or exhaustive. The ExA may add other issues for consideration, may alter the order in which issues are considered and will seek to allocate sufficient time to each issue to allow proper consideration of them. Any lack of discussion of a particular issue at a hearing does not preclude further examination of this issue, including further written questions.

Every effort will be made to ensure that the issues will be discussed on the days that they are scheduled for. Should the consideration of the issues take less time than anticipated, the ExA may conclude the Hearing as soon as all relevant contributions have been made and all questions asked and responded to.

If there are additional matters to be dealt with or there are submissions that take a considerable amount of time at any Hearing there may be a need to continue the session for longer on the day. Alternatively it may be necessary to prioritise matters and defer others to further written questions.

Please Note:

In order to ensure publication of the agenda before the Christmas break, this has been drafted prior to receipt of submissions for Deadline 3.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Issue Specific Hearing: Second Issue Specific Hearing on the draft Development Consent Order (dDCO)

Agenda

1. **Welcome, introductions, arrangements for the hearing**

2. **Purpose of the ISH**
   a. To review the Applicant's changes to the draft DCO (dDCO) from Revision 1 to Revision 3 and submissions from IPs on any proposed changes.
   b. To explore the proposed s106 Agreement including its relationship to the dDCO and the proposed s106 for Site Clearance and Preparation Works.
   c. To receive an update in relation to other consents, licences and other agreements.

3. **Articles and Schedules of the draft DCO (Excluding Schedules 3, 4 and 15)**
   a. To establish any changes to the last stated position of interested parties in respect of the articles and schedules of the dDCO
   b. To identify areas where there are still differences of opinion and whether additional work, mitigation or changes to the development consent order are proposed or required, including matters addressed or likely to be addressed at the Socio-Economic and Biodiversity Issue Specific Hearings in January 2019.
   c. To consider in detail Schedule 1, Other Associated Development with particular reference to Item p of REP2-020 (Rev 3.0). This was previously referred to as Item o in REP1-005 (Rev 2.0); APP-029 and APP-030.

4. **Schedule 3 - Requirements of the dDCO**
   a. To identify areas where there are still differences of opinion and whether additional work, mitigation or changes to the development consent order are proposed or required, including matters addressed or likely to be addressed at the Socio-Economic and Biodiversity Issue Specific Hearings in January 2019.

5. **Schedule 4 - Deemed Approval or Compliance**
   a. To identify areas where there are still differences of opinion and whether additional work, mitigation or changes to the development consent order are proposed or required, including matters addressed or likely to be addressed at the Socio-Economic and Biodiversity Issue Specific Hearings in January 2019.

6. **Schedule 15 - Protective Provisions of the dDCO**
   a. To receive an update on progress between parties; an explanation of any important differences of view; and timescales for completion.

7. **Proposed s106 Agreement**
   a. To consider legitimacy; governance arrangements; and the adequacy of the financial and other resources likely to be made available.
   b. To consider the suite of mirror provisions that would be required in the dDCO in the event that the s106 Agreement is not agreed and signed before the close of the Examination.
   c. To explore and confirm how the interface between the s106 Agreement for the submitted planning application in respect of the site clearance and preparation works and the s106 Agreement proposed for the Wylfa Newydd development as a whole will be managed.

8. **Consents, licences and other agreements**
   a. To receive an update on progress between parties and timescales for completion.

9. **Action points arising from the hearing**

10. Close of Hearing

Attendees:

All Interested Parties are welcome to attend the hearing. However, representatives for the following parties are specifically requested to attend because the Examining Authority considers that the material they have submitted raises issues that the Examining Authority may wish to explore at the hearing:

- Horizon Nuclear Power (the Applicant)
- Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (IACC)
- Cyngor Gwynedd/Gwynedd Council (GC)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council (CCC)
- Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
- Llywodraeth Cymru/Welsh Government (WG)
- Heddlu Gogledd Cymru/North Wales Police (NWP)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB)
- Land and Lakes Ltd